# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 12 Mawrth 2002

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Deddfwriaeth Sylfaenol

**C11 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y mesurau a ddefnyddir gan y Cynulliad i ddylanwadu ar y ffordd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn cael ei drafftio? (OAQ16198)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae fy nghyd-aelodau yn y Cabinet, swyddogion a minnau yn trafod â'n cymheiriaid yn Whitehall yn rheolaidd ynglŷn â thelerau deddfwriaeth sylfaenol.

### Ymweliad â Gogledd Cymru

**C12 Alun Pugh:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei ymweliad diweddar â Gogledd Cymru, a oedd yn cynnwys ymweliadau â Chanolfan Fusnes Conwy, y ffatri BAE ym Mrychdyn a safle Alcoa yn Nolgarrog? (OAQ16195)

**Prif Weinidog Cymru:** Agorais Ganolfan Fusnes Conwy yng Nghyffordd Llandudno ar 7 Chwefror. Cefais gyfle i edrych ar y cyfleusterau a chwrdd â rhai o'r gweithwyr cymorth busnes a nifer o'r arloeswyr busnes sy'n defnyddio'r ganolfan yn bencadlys i'w busnesau. Trannoeth, ymwelais â ffatri Alcoa yn Nolgarrog gyda'r Llywydd a chithau, ar y cyd â chynrychiolwyr o'r WDA a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bu ein cyfarfod â rheolwr cyffredinol y ffatri, cyfarwyddwr Ewropeaidd y grŵp a'i gyfrifydd, KPMG, yn adeiladol. Yna, treuliais sawl awr yn ffatri Airbus ym Mrychdyn lle y lansiais Grŵp Aerofod Gogledd Cymru, sydd newydd ei sefydlu. Bu cwmnïau o bob maint yn bresennol ac mae'r adborth a gafwyd hyd yn hyn yn awgrymu iddo fod yn gychwyn llwyddiannus iawn.

### Difaterwch ymhlith Pleidleiswyr

**C13 Jonathan Morgan:** Yn rhinwedd ei swydd fel datblygwr polisi ar gyfer materion trawsbynciol beth y mae Prif Weinidog Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â difaterwch ymhlith pleidleiswyr? (OAQ16201)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r ffaith bod llai o bobl yn pleidleisio yn broblem gyffredin yn y rhan fwyaf o'r democratiaethau gorllewinol datblygedig. Yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau a'r Comisiwn Etholiadol sy'n gyfrifol am gynnal etholiadau ac maent wedi cynnal sawl cynllun peilot i ffyrdd arloesol o annog mwy o bobl i bleidleisio, megis pleidleisio electronig a bwrw pob pleidlais drwy'r post. O ran etholiadau'r Cynulliad, mae'r Senedd wrthi'n ystyried y ddeddfwriaeth eilaidd y byddai ei hangen i sicrhau bod yr hawl i bleidleisio drwy'r post yn etholiadau'r Cynulliad yn cyfateb i etholiadau seneddol.

### Amhleidioldeb y Gwasanaeth Sifil

**C14 Alun Cairns:** Pa drefniadau y mae Prif Weinidog Cymru wedi cytuno arnynt â'r Ysgrifennydd Parhaol er mwyn sicrhau nad yw ymgynghorwyr arbennig yn peryglu amhleidioldeb y gwasanaeth sifil? (OAQ16193)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol a minnau'n fodlon nad yw gwaith ymgynghorwyr arbennig Llywodraeth Cynulliad Cymru yn peryglu amhleidioldeb gweision sifil ac nad oes angen newid y trefniadau cyfredol.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ16208) yn ôl.*